Estyn
Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Rhys Prichard
# Heol Llanfair
# Llanymddyfri
# Sir Gaerfyrddin
# SA20 0HY

## Dyddiad yr arolygiad:  Mawrth 2014

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2014: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/05/2014**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Rhys Prichard wedi ei lleoli ar gyrion tref Llanymddyfri ac yn gwasanaethu'r dref a'r ardal wledig gyfagos. Fe'i cynhelir gan awdurdod lleol Caerfyrddin.

Mae 174 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol, gan gynnwys 14 o blant meithrin yn llawn amser. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn amser llawn yn y tymor cyn eu pen-blwydd yn bedair oed.

Daw tua 30% o'r disgyblion o gartrefi lle y siaredir y Gymraeg fel iaith gyntaf. Cymraeg yw prif gyfrwng yr addysgu. Daw tua 1% o gefndir lleiafrifol ethnig. Tua 13% o ddisgyblion sydd â hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim ac mae'r ffigwr hwn yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae gan 22% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig, sydd yn debyg i'r ffigwr cenedlaethol, ac mae 4% ohonynt ar ddatganiad.

Trefnwyd yr ysgol mewn dwy ffrwd yn y gorffennol ond bellach mae'r ysgol yn y broses o drawsnewid y trefniadau hyn. Mae'r ysgol yn raddol newid o fod yn cynllunio ar lefel dwy ffrwd i fod yn cyflwyno Cymraeg fel iaith gyntaf. Dim ond 33 o ddisgyblion sydd yn y ffrwd Saesneg erbyn hyn.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Rhys Prichard yn 2013-2014 yw £3,666. Yr uchafswm o ran cyllideb ysgol fesul disgybl yn ysgolion cynradd Caerfyrddin yw £8,152 a'r lleiafswm yw £2,941. Mae Ysgol Rhys Prichard yn safle 57 o'r 106 ysgol gynradd yng Nghaerfyrddin o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn ystod tymor y gwanwyn 2008.

Penodwyd y pennaeth presennol yn Ionawr 2005.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae'r ysgol hon yn dda oherwydd:

- bod yr ysgol yn gymuned hapus a gofalgar ble mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel;
- bod bron pob disgybl yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu;
- llwyddiant yr ysgol mewn datblygu dwyieithrwydd o oed cynnar; a bod
- addysgu o safon gyffredinol dda a chefnogaeth effeithiol y cymorthyddion dysgu.

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod yr uwch dîm rheoli yn defnyddio eu cryfderau a'u harbenigeddau i symud yr ysgol ymlaen;
- bod arweinwyr yn gweithio fel tîm i gynnig arweiniad strategol cadarn i'r ysgol; a
- bod partneriaethau cryf yn cael eu defnyddio'n effeithiol i gefnogi dysgu'r disgyblion.

## Argymhellion

A1 Codi canrannau disgyblion sy'n cyrraedd y lefelau uwch ar draws yr ysgol

A2 Sicrhau cysondeb yn y ddarpariaeth ar gyfer rhifedd ar draws y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 2

A3 Sicrhau cysondeb wrth weithredu strategaethau asesu ar gyfer dysgu ar draws cyfnod allweddol 2

A4 Sicrhau bod yr adroddiad hunanarfarnu yn arfarnol a chryfhau'r cyswllt rhwng yr adroddiad a'r cynllun gwella ysgol

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o'r disgyblion, ar fynediad i'r ysgol, lefel dda o allu yn y medrau sylfaenol ac eithrio yn y Gymraeg ble mae'r iaith yn newydd i lawer ohonynt. Mae bron pob un o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da trwy'r Cyfnod Sylfaen ym mhob un o'r meysydd dysgu a chynnydd ardderchog yn y Gymraeg.

Mae bron bob disgybl ar draws yr ysgol yn gweithio'n ddiwyd, yn cyflawni eu gwaith yn effeithiol ac yn arddangos cynnydd amlwg yn safon yr hyn a gyflawnir o fewn sesiynau dysgu a thros gyfnod o amser. Mae'r gwaith cyfredol yn llyfrau'r disgyblion yn dangos cynnydd amlwg mewn safonau medrau llythrennedd yn gyffredinol ar draws yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'r medrau hyn yn effeithiol ar draws y cwricwlwm.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion ar draws yr ysgol yn gwrando'n astud yn ystod y gwersi. Maent yn awyddus i gyfrannu i drafodaethau ac i ymateb i gwestiynu'r athrawon yn effeithiol. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn gallu sgwrsio'n hyderus ac yn glir. Maent yn trafod profiadau a digwyddiadau cyfarwydd yn hyderus. Ar frig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn siarad yn hyderus mewn amryw o gyd-destunau. Maent yn cyflwyno gwybodaeth yn eglur ac yn effeithiol, ac yn dangos gafael dda ar gystrawen naturiol yr iaith lafar.

Mae safon darllen y rhan fwyaf o'r disgyblion yn y ddwy iaith yn briodol i'w hoedran a'u gallu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r disgyblion yn gyfarwydd ag ystod o strategaethau darllen. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn deall yr hyn y maent yn ei ddarllen gan fynegi barn a thrafod cynnwys llyfrau. Maent yn darllen yn rhugl a hyderus, gan ddefnyddio mynegiant a goslef i gyfleu ystyr yn effeithiol. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn darllen ystod eang o ddeunyddiau gyda rhugldeb ar draws y cwricwlwm, a gallant ddewis a dethol rhannau penodol o lyfrau at eu defnydd o fewn eu gwaith.

Mae datblygiad ysgrifennu ar draws yr ysgol yn gyffredinol dda gyda mwyafrif o'r disgyblion yn cynhyrchu darnau estynedig effeithiol. Mae ysgrifennu ar draws gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen yn y Gymraeg o safon uchel ac yn dangos cynnydd amlwg dros gyfnod byr o amser. Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn ysgrifennu'n glir ac yn ddiddorol mewn ystod eang o ffurfiau ac i amrywiaeth o bwrpasau yn y ddwy iaith. P'run bynnag, nid yw'r disgyblion mwyaf galluog bob amser yn cyflawni gwaith digon heriol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn defnyddio'u medrau rhifedd yn llwyddiannus i ddatrys problemau mathemategol o fewn yr ardaloedd dysgu. Gwelir dilyniant a chynnydd yn y medrau hyn drwy gydol y Cyfnod Sylfaen. Er bod disgyblion o fewn cyfnod allweddol 2, ar y cyfan, yn gallu defnyddio eu medrau yn llwyddiannus i ddatrys problemau real ac o fewn meysydd fel hanes a daearyddiaeth, anghyson yw hyn ar draws y cyfnod allweddol.

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a chyfnod allweddol 2 gyda gofal oherwydd bod yr ysgol dros y blynyddoedd diwethaf yn y broses o drawsnewid yn ieithyddol.  Mae newid natur y carfanau wedi cael effaith ar y data dros y cyfnod.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn 2013, o gymharu ag ysgolion tebyg, roedd perfformiad yr ysgol yn y 50% uwch mewn datblygiad ieithyddol yn y Gymraeg. Dyma fu'r patrwm dros y ddwy flynedd ddiwethaf.  Roedd y perfformiad mewn datblygiad ieithyddol yn y Saesneg ac mewn datblygiad mathemategol yn y 50% is, sy'n ostyngiad o'r 25% uchaf yn 2012.  Fodd bynnag, nid oedd perfformiad yr ysgol ar y deilliant uwch, sef deilliant 6, yn cymharu cystal.  Er bod perfformiad yr ysgol yn y Gymraeg o fewn y 50% uwch, roedd perfformiad mewn datblygiad mathemategol yn y 50% is ac yn y 25% isaf mewn datblygiad Saesneg.  Gwelwyd cynnydd ym mherfformiad y Gymraeg dros ddwy flynedd o'r 25% isaf hyd at y 50% uwch a gostyngiad mewn datblygiad mathemategol o'r 25% uchaf yn 2012.  Mae canlyniadau ieithyddol yn y Saesneg wedi aros yn gyson.

Yn 2013, roedd perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig yng nghyfnod allweddol 2, sef lefel 4, yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru, mewn Cymraeg.  Roedd y canlyniadau yn debyg i, neu'n agos at, y cyfartaledd mewn mathemateg a Saesneg ond ychydig yn is mewn gwyddoniaeth.  O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg, gwelwyd cynnydd cyson dros y pedair blynedd diwethaf yn y Gymraeg gyda'r perfformiad yn y 25% uchaf erbyn hyn.

Mae canlyniadau Saesneg wedi bod yn gyson o fewn y 50% is, a mathemateg a gwyddoniaeth wedi gostwng yn 2013 i'r 25% isaf ar ôl bod o fewn y 25% uchaf neu 50% uwch cyn hyn.

Gwelir gwelliant graddol yn y canlyniadau ar lefel 5 o fewn y ddwy iaith dros gyfnod, gyda'r ysgol erbyn hyn yn y 50% uwch mewn Saesneg a'r 25% uchaf mewn Cymraeg.  Mae'r ysgol yn parhau yn y 50% is ers dwy flynedd mewn gwyddoniaeth a mathemateg.

**Lles:  Da**

Mae'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel iawn yn yr ysgol ac yn hapus i droi at unrhyw aelod o staff am gymorth pan fo angen.  Maent yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd bwyta'n iach ac yfed dŵr yn rheolaidd.  Maent hefyd yn ymwybodol o'r angen i ymarfer y corff a chyfranogant yn rheolaidd mewn gweithgareddau ychwanegol fel cystadlaethau'r Urdd mewn ystod eang o gemau.

Mae presenoldeb o gwmpas 95%, sy'n dda ac yn uwch na chyfartaledd y teulu o ysgolion tebyg.  Mae canran presenoldeb yr ysgol o fewn y 50% uwch o ysgolion tebyg. Dyma'r patrwm dros gyfnod o ddwy flynedd.

Mae ymddygiad bron pob un o'r disgyblion yn dda iawn a dangosant barch a gofal at ei gilydd ac at oedolion.  Maent yn ymwybodol iawn o bwysigrwydd materion lles, iechyd a diogelwch.

Gwna'r cyngor ysgol gyfraniad arwyddocaol i weithgareddau'r ysgol. Mae'r disgyblion yn ymfalchïo yn yr hyn y maent wedi ei gyflawni i wella eu hysgol a'u hamgylchedd. Enghraifft benodol o hyn yw'r ymgyrchoedd i godi arian tuag at adnoddau newydd i'w lleoli ar iard yr ysgol.

Mae'r disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau megis cyngherddau a gwasanaethau, yn y dref a'r gymuned tu hwnt. Maent bron oll, ar draws yr ystod oedran, yn datblygu eu hyder wrth elwa o'r cyfleoedd hyn.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r ysgol yn darparu ystod eang o brofiadau dysgu ysgogol sy'n ennyn diddordeb disgyblion o fewn gwersi a thrwy ymweliadau allanol. Mae'r ymweliadau hyn â'r gymuned ac ymhellach yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi profiadau'r disgyblion. Enghreifftiau da o hyn yw ymweliadau'r disgyblion i Gaerdydd ac i'r Gerddi Botaneg fel rhan o'u gwaith themâu tymhorol.

Mae'r cynlluniau gwaith ar draws yr ysgol yn gynhwysfawr ac yn fwriadus ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth y disgyblion. Mae'r staff yn cynllunio gweithgareddau ar gyfer ymateb i anghenion y rhan fwyaf o'r disgyblion. Nid yw'r cynlluniau ar hyn o bryd yn diwallu yn llawn anghenion y disgyblion mwyaf galluog o fewn cyfnod allweddol 2.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu'r Gymraeg yn gryfder amlwg wrth i'r ysgol drawsnewid yn ieithyddol. Mae'r ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn effeithiol iawn ac mae hyn yn datblygu'n amlwg wrth i'r disgyblion symud trwy gyfnod allweddol 2. Mae'r pwyslais a roddir ar y Cwricwlwm Cymreig hefyd yn un o gryfderau amlwg yr ysgol.

Mae darpariaeth gadarn gan yr ysgol ar gyfer datblygiad cynaliadwyedd wedi ei hymgorffori'n llawn i fywyd yr ysgol a'r cwricwlwm a chynllunnir yn fwriadus ar gyfer ehangu gwybodaeth y disgyblion am wledydd a materion tramor.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn gyffredinol dda ar draws yr ysgol. Mae perthynas dda rhwng y staff a'r disgyblion ym mhob dosbarth. Ceir cydweithio effeithiol iawn rhwng yr athrawon a'r staff ategol ar draws yr ysgol.

Lle mae'r addysgu ar ei orau, mae'r disgyblion yn cael eu cymell yn effeithiol i gyflawni gwaith o safon dda ac i gwblhau tasgau o fewn cyfnodau penodol. Gwna'r athrawon ddefnydd effeithiol o ganmoliaeth a chefnogant y disgyblion yn briodol tra byddant yn cyflawni eu tasgau. Mae gan yr athrawon wybodaeth drylwyr am y meysydd dysgu a'r pynciau y maent yn eu haddysgu. Maent yn cynllunio ystod o weithgareddau diddorol a phriodol ac mae ansawdd da strategaethau dysgu yn cyfrannu'n effeithiol at ddeilliannau'r disgyblion.

Yn yr ychydig iawn o wersi lle nad yw'r addysgu cystal, nid yw'r disgwyliadau bob amser yn ddigon heriol i'r plant mwyaf galluog. Nid oes digon o gyfleoedd i feithrin annibyniaeth bob tro.

Gwneir defnydd da o strategaethau asesu ar gyfer dysgu trwy'r ysgol. Yn y mwyafrif o'r gwersi, mae'r athrawon yn rhannu'r amcanion ac yn trafod y meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion yn effeithiol. Lle mae'r defnydd o hyn ar ei orau, mae marcio'r athrawon yn adeiladol ac yn ymateb i waith ysgrifenedig drwy gynnig syniadau ar sut i symud y dysgu yn ei flaen. Maent yn sicrhau meini prawf llwyddiant yn benodol ar gyfer tasgau a osodir. Disgwylir i'r disgyblion asesu eu gwaith yn ôl y meini prawf hyn ond nid yw'r arferiad yn gyson ar draws yr ysgol.

Mae gan yr ysgol drefn asesu drylwyr. Mae'r athrawon yn adolygu cynnydd a dealltwriaeth flaenorol disgyblion yn rheolaidd. Gwneir hyn yn effeithiol trwy nifer o brofion safonol a phecyn asesu masnachol. Trwy hyn, mae'r ysgol yn adnabod yn dda y cryfderau a'r hyn sydd angen i'w flaengynllunio. Mae'r canlyniadau yn cynnig gwybodaeth berthnasol ar gyfer system dracio'r ysgol.

Mae'r rhieni yn derbyn gwybodaeth dda am gynnydd eu plant ac mae'r adroddiadau blynyddol yn ymateb yn llawn i'r gofynion statudol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned hapus a gofalgar. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder. Mae gan yr ysgol ddarpariaeth briodol i hyrwyddo iechyd a lles y disgyblion. Mae ganddi hefyd drefniadau effeithiol ar gyfer hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r gwasanaethau ysgol yn sicrhau amser priodol i'r disgyblion gael rhyfeddu a myfyrio am ryfeddodau'r byd.

Mae trefn yr ysgol o gymell y disgyblion hŷn i fod â gofal dros ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn meithrin agweddau cadarnhaol a synnwyr o gyfrifoldeb dros eraill.

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer adnabod disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gynnar. Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i'r gofynion trwy gadw cofrestr, darparu cynlluniau perthnasol a'u diweddaru yn rheolaidd gan ddwyn y rhieni i mewn i'r broses.

Mae'r ysgol yn manteisio'n briodol ar amrediad eang o gysylltiadau ac asiantaethau allanol sy'n cael effaith gadarnhaol ar ddatblygiad carfan benodol o ddisgyblion.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos caredig a hapus yn amlwg yn Ysgol Rhys Prichard. Mae'n ymrwymo i sicrhau cydraddoldeb addysg a chyfle i'r holl ddisgyblion, staff, rhieni a gofalwyr. Mae'r ysgol yn un gynhwysol sydd yn parchu amrywiaeth ac yn galluogi pawb sy'n gysylltiedig â hi i deimlo'n falch o'u hunaniaeth. Rhoddir cyfleoedd i bawb gyfrannu yn llawn i fywyd yr ysgol. Fe anogir cydweithrediad, gofal a goddefgarwch rhwng oedolion a phlant a rhwng plant a'i gilydd. Perchir syniadau a barn pawb.

Mae gan yr ysgol gyflenwad da o adnoddau ar gyfer gwersi. Mae'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau ac ar draws yr ysgol yn ddeniadol, lliwgar ac yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn ysgogi'r dysgu. Mae'r adeilad o ansawdd da ac yn cael ei ddefnyddio i'w lawn botensial. Gwneir defnydd effeithiol o'r safle allanol ar gyfer dysgu yn y Cyfnod Sylfaen ac ar gyfer tyfu ffrwythau a llysiau sy'n ychwanegu at brofiadau disgyblion. Caiff yr adeiladau a'r safle eu cynnal a'u cadw'n lân a thestlus.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan yr uwch dîm rheoli weledigaeth glir a ddisgwyliadau uchel o staff a disgyblion. Maent yn gweithio gyda'i gilydd yn effeithiol i sicrhau bod yr ysgol yn cael ei threfnu a'i rheoli'n dda. Mae gan arweinwyr ffocws clir ar godi safonau, ac maent yn defnyddio data'n dda i fonitro a herio perfformiad yr ysgol.

Mae trefniadau rheoli perfformiad trylwyr yn cyfrannu'n effeithiol at welliannau mewn dysgu ac addysgu ac yn cynnig cyfleoedd gwerthfawr i hyrwyddo datblygiad proffesiynol staff.

Mae'r corff llywodraethol yn cefnogi'r ysgol yn effeithiol ac mae ganddynt ddealltwriaeth manwl o berfformiad y disgyblion a'r modd y mae'n cymharu â pherfformiad ysgolion eraill tebyg. Mae ganddynt wybodaeth dda am gryfderau a blaenoriaethau'r ysgol ar gyfer datblygu, ac maent yn monitro'r cyllid yn effeithiol. Mae llywodraethwyr yn herio'r ysgol am safonau a chyrhaeddiad disgyblion ac yn cynnig arweiniad strategol cadarn.

Mae'r ysgol yn gwneud cynnydd da wrth gyflwyno mentrau sy'n bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol fel datblygu strategaethau llythrennedd a rhifedd, hyrwyddo'r iaith Gymraeg, ac asesu ar gyfer dysgu. Mae'r datblygiadau hyn yn cael effaith gadarnhaol ar safon gwaith disgyblion.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol strategaeth a gweithdrefnau cadarn ar gyfer hunanarfarnu sy'n defnyddio ystod eang o dystiolaeth uniongyrchol. Mae gan yr uwch dîm rheoli ddarlun clir a dealltwriaeth gywir o gryfderau a gwendidau'r ysgol, yn seiliedig ar y dystiolaeth hon. Mae'n cynnwys perfformiad disgyblion, arsylwadau ystafell ddosbarth, craffu ar waith disgyblion a safbwyntiau disgyblion a rhieni.

Mae gan y corff llywodraethol rôl strategol llawn yn y prosesau hyn sy'n sicrhau bod yr holl randdeiliaid yn cyfrannu at y broses hunanarfarnu. Er hynny, nid yw'r adroddiad ysgrifenedig yn ddigon arfarnol a dadansoddol nac yn adnabod yn glir yr elfennau i'w datblygu ymhellach, bob tro.

Mae'r cynllun datblygu ysgol yn ddogfen gynhwysfawr sy'n nodi meini prawf llwyddiant, cyfrifoldebau staff, amserlenni ac adolygiadau monitro. Mae blaenoriaethau clir er mwyn sicrhau gwelliannau pellach i safonau disgyblion ac ansawdd yr addysgu, er enghraifft targedau i ddatblygu safonau llythrennedd a rhifedd disgyblion. Serch hynny, nid yw'r blaenoriaethau bob amser yn dilyn yn uniongyrchol o'r adroddiad hunanarfarnu.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae gan yr ysgol bartneriaethau strategol da sy'n cyfrannu at wella safonau a lles y disgyblion ac yn cynnig profiadau dysgu gwerthfawr. Mae'r ysgol yn ymgymryd â rôl flaenllaw i ddatblygu arferion cydweithio ac mae'n llwyddo i feithrin perthynas gadarn a chynnal trefniadau cyfathrebu adeiladol rhwng partneriaid.

Mae ganddi berthynas gref gyda rhieni sy'n cryfhau'r bartneriaeth rhwng y cartref a'r ysgol ac ymglymu'r rhieni yn y broses o gynnal a gwella safonau. Mae'r ysgol yn elwa o gyfraniadau cyllidol gwerthfawr gan gymdeithas y rhieni.

Mae'r bartneriaeth effeithiol rhwng yr ysgol a'r cylch meithrin yn sicrhau bod disgyblion yn ymgartrefu'n gyflym yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ysgol hefyd yn cydweithio'n llwyddianus gyda'r ysgol uwchradd leol ac mae trefniadau pontio effeithiol, sy'n cynnwys ymweliadau staff priodol, yn sicrhau trosglwyddo esmwyth ar ddiwedd eu cyfnod yn yr ysgol.

Mae'r cysylltiadau cryf iawn gyda'r gymuned leol yn cyfoethogi profiadau disgyblion a'u dealltwriaeth o'u hardal leol. Enghraifft o hyn yw'r gwaith diddorol yn ymwneud ag adfywio a newid gwedd yr orsaf reilffordd.

Cydweithia'r ysgol yn bwrpasol gyda'r ysgolion clwstwr a'r ysgolion uwchradd fel rhan o drefniadau'r awdurdod i safoni a chymedroli gwaith disgyblion. Mae hyn yn cynorthwyo'r athrawon i ddeall yn well y safonau disgwyliedig ar ddiwedd y cyfnodau allweddol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau cyllidol trylwyr ac mae gwariant yn cysylltu'n dda ag amcanion, targedau a chynlluniau'r ysgol. Mae'r pennaeth a'r llywodraethwyr yn monitro ac yn rheoli'r cyllid yn ofalus.

Mae staff ac adnoddau ariannol yn cael eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi a gwella dysgu. Mae athrawon yn gwneud defnydd pwrpasol o'u hamser cynllunio, paratoi ac asesu, ac mae'r trefniadau yn cael eu rheoli'n dda. Mae cymorthyddion yn cynnig cefnogaeth dda iawn ac yn dylanwadu'n gadarnhaol ar gyrhaeddiad disgyblion.

Mae trefniadau cadarn ar gyfer rheoli perfformiad athrawon a chymorthyddion dysgu. Mae pob un o'r staff yn elwa ar gyfleoedd hyfforddi sy'n cefnogi eu datblygiad proffesiynol parhaus ac yn gymorth i godi safonau drwy'r ysgol.

Mae'r ysgol yn datblygu'n gymuned dysgu broffesiynol sy'n galluogi staff i rannu eu gwybodaeth a'u harbenigedd i gefnogi addysgu. Mae rhwydweithiau effeithiol o arfer broffesiynol gydag ysgolion a phartneriaid eraill yn dechrau cael effaith gadarnhaol ar safonau a chyrhaeddiad disgyblion.

Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian o ran deilliannau disgyblion, ac ansawdd ei darpariaeth

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Rhaid trin asesiadau athrawon ar ddiwedd cyfnod gyda gofal oherwydd bod y niferoedd o fewn carfanau wedi bod yn anghyson a bychan yn achos y ffrwd Saesneg yn arbennig. Mae niferoedd disgyblion oedd ag anghenion addysgol arbennig wedi dylanwadu hefyd ar ganlyniadau 2013 yng nghyfnod allweddol 2 yn benodol.

Yn 2013, cyrhaeddodd 94% o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen y deilliant disgwyliedig, sef deilliant 5, yn natblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg. Mae hyn yn uwch na chyfartaleddau'r teulu a Chymru. Roedd canlyniadau datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu Saesneg a datblygiad mathemategol yn uwch na chyfartaleddau Cymru ac yn agos at gyfartaleddau'r teulu.

Mae perfformiad mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu yn y Gymraeg wedi aros yn gyson dros y ddwy flynedd diwethaf, gyda'r ysgol yn y 50% uwch o gymharu ag ysgolion tebyg. Bu gostyngiad i'r 50% is mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Saesneg a datblygiad mathemategol. Gwelwyd cynnydd mewn datblygiad personol a chymdeithasol o'r 25% isaf yn 2012 hyd at y 50% is yn 2013.

Yn 2013, roedd cyfran y disgyblion yn cyflawni'n uwch na'r deilliant disgwyliedig, sef deilliant 6, ym mhob maes dysgu yn is na chyfartaledd y teulu a Chymru.

O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg o ran y canran o ddisgyblion sydd â'r hawl i dderbyn cinio di-dâl yn 2013, perfformiodd yr ysgol yn y 50% uwch mewn datblygiad ieithyddol Cymraeg. Roedd yn y 50% is mewn datblygiad mathemategol ac yn y 25% isaf mewn datblygiad ieithyddol Saesneg a datblygiad personol a chymdeithasol. Gwelwyd gwelliant yn natblygiad y Gymraeg a gostyngiad mewn datblygiad mathemategol a datblygiad personol a chymdeithasol dros ddwy flynedd.

O gymharu â'r canrannau cenedlaethol, nid oes gwahaniaethau arwyddocaol rhwng perfformiad y bechgyn a'r merched ar y deilliant disgwyliedig. Gwelir y bechgyn yn perfformio yn well na'r merched yn nangosydd y Cyfnod Sylfaen ond yn is mewn datblygiad iaith, llythrennedd a chyfathrebu mewn Saesneg. Mae'r gwahaniaeth mwyaf ar ddeilliant 6 gyda'r merched yn perfformio'n sylweddol well.

Yng nghyfnod allweddol 2, roedd pob disgybl wedi cyflawni'r lefel ddisgwyliedig neu uwch mewn Cymraeg. Roedd cyflawniad yn y dangosydd pwnc craidd yn 2013 yn uwch na chyfartaledd ysgolion Cymru ac yn debyg i'r teulu. O fewn Saesneg a mathemateg, roedd perfformiad yr ysgol yn agos at, neu'n debyg i, gyfartaledd ysgolion Cymru ac ychydig yn is na'r teulu. Roedd y canran sydd wedi cyrraedd y lefel uwch, sef lefel 5, yn uwch na chyfartaledd y teulu a Chymru yn y Gymraeg. Roedd y perfformiad mewn Saesneg a mathemateg yn agos at neu'n debyg i gyfartaledd ysgolion Cymru

O gymharu canlyniadau'r ysgol ag ysgolion tebyg, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel ddisgwyliedig wedi graddol godi ers 2009 ym mhob maes ond am wyddoniaeth ble mae'r canlyniadau a'r trywydd ar i lawr dros y cyfnod.  Mae canlyniadau Saesneg wedi aros yn gyson o fewn y 50% is dros bum mlynedd.  Mae'r Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth wedi bod o fewn y 50% uwch er 2011 hyd at eleni ble gwelwyd gostyngiad i'r 25% isaf mewn mathemateg a gwyddoniaeth, a'r Gymraeg yn codi i'r 25% uchaf.  Ar y lefel uwch mae perfformiad yr ysgol yn y Gymraeg yn y 25% uchaf, yn y Saesneg yn y 50% uwch ac mewn mathemateg a gwyddoniaeth o fewn y 50% is.

O fewn cyfnod allweddol 2 mae gwahaniaeth rhwng perfformiad bechgyn a marched ym mhob maes ac eithrio'r Gymraeg.  Fodd bynnag, nid yw'r gwahaniaeth yn arwyddocaol ac mae yn gysylltiedig â bechgyn o fewn y garfan ag anghenion addysgol arbennig.  Mae'r gwahaniaeth mwyaf ar y lefel uwch, sef lefel 5, gyda'r marched yn perfformio'n well.

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

## Ymatebion i’r holiadur i ddysgwyr

Yn dynodi’r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o’r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 87 | 87<br>100% | 0<br>0% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| | | 98% | 2% | |
| The school deals well with any bullying. | 87 | 86<br>99% | 1<br>1% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| | | 92% | 8% | |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 87 | 86<br>99% | 1<br>1% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| | | 97% | 3% | |
| The school teaches me how to keep healthy | 87 | 85<br>98% | 2<br>2% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| | | 97% | 3% | |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 87 | 87<br>100% | 0<br>0% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 96% | 4% | |
| I am doing well at school | 87 | 85<br>98% | 2<br>2% | Rwy’n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 87 | 87<br>100% | 0<br>0% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| | | 99% | 1% | |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 87 | 84<br>97% | 3<br>3% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| | | 98% | 2% | |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 87 | 78<br>90% | 9<br>10% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| | | 91% | 9% | |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 87 | 86<br>99% | 1<br>1% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| | | 95% | 5% | |
| Other children behave well and I can get my work done. | 87 | 76<br>87% | 11<br>13% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| | | 77% | 23% | |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 87 | 84<br>97% | 3<br>3% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |
| | | 84% | 16% | |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 26 | 22 | 4 | 0 | 0 | 0 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 26 | 22 | 4 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 85% | 15% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 26 | 25 | 1 | 0 | 0 | 0 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 96% | 4% | 0% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 26 | 18 | 8 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 69% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 26 | 12 | 14 | 0 | 0 | 0 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 46% | 54% | 0% | 0% | | |
| | | 45% | 46% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 26 | 21 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 26 | 19 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 34% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 26 | 19 | 7 | 0 | 0 | 0 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 73% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 26 | 18 | 7 | 0 | 0 | 1 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 69% | 27% | 0% | 0% | | |
| | | 58% | 34% | 3% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 26 | 20 | 6 | 0 | 0 | 0 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 77% | 23% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 26 | 21 | 5 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 81% | 19% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 24 | 12 | 12 | 0 | 0 | 0 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 50% | 50% | 0% | 0% | | |
| | | 50% | 35% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 25 | 16 | 8 | 1 | 0 | 0 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 64% | 32% | 4% | 0% | | |
| | | 49% | 41% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses / Nifer o ymatebion | Strongly Agree / Cytuno'n gryf | Agree / Cytuno | Disagree / Anghytuno | Strongly disagree / Anghytuno'n gryf | Don't know / Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 26 | 18<br>69% | 6<br>23% | 2<br>8% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 26 | 13<br>50% | 11<br>42% | 2<br>8% | 0<br>0% | 0 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 44% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 26 | 17<br>65% | 8<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 1 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 55% | 39% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 22 | 9<br>41% | 10<br>45% | 0<br>0% | 0<br>0% | 3 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 42% | 34% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 26 | 18<br>69% | 7<br>27% | 1<br>4% | 0<br>0% | 0 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 53% | 39% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 26 | 18<br>69% | 8<br>31% | 0<br>0% | 0<br>0% | 0 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 60% | 33% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Owen Glyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Hazel Hughes | Arolygydd Tîm |
| Michaela Leyshon | Arolygydd Lleyg |
| Darren Richard Booth-Taylor | Arolygydd Cymheiriaid |
| Noel Jones | Enwebai |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- datblygiad mathemategol; a
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf;
- mathemateg; a
- gwyddoniaeth.

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol. Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn

chwarteli wedyn (o’r 25% uchaf i’r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae’n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.
Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu’r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu’u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae’r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a’r gyfran sy’n byw yn yr 20% o’r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy’r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy’n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.